COFNODION CYFARFOD CAËEDIG - BWRDD YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU A GYNHALIWYD DYDD IAU 29 MEDI 2015 YN Y GANOLFAN DECHNOLEG AMGEN, MACHYNLLETH, POWYS, SY20 9AZ – HEB EU CADARNHAU

AELODAU'R BWRDD YN BRESENNOL:

Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd	**MG**
Tracy Myhill	Prif Weithredwr	**TM**
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol	**ED**
Yr Athro Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol	**KD**
Pam Hall	Cyfarwyddwraig Anweithredol	**PH**
Judith Hardisty	Cyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol	**JH**
Dr Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol	**BL**
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwraig Cyllid ac ICT	**PR**
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol	**DSc**
Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd	**MW**

CYNRYCHIOLWYR AR FWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH:

		HB
Hugh Bennett	Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad	**HE**
Hannah Evans	Cyfarwyddwraig Cynllunio a Pherfformiad	**LH**
Leanne Hawker	Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd	**NH**
Nigel Heal	Cynrychiolydd Staff	**WH**
Wendy Herbert	Cyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrsio Cynorthwyol	**EH**
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwraig Gysylltiol, Swyddfa'r Prif Weithredwr	**AJ**
Andrew Jenkins	Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol	**RJ**
Roger John	Cynrychiolydd Staff	**SO**
Steve Owen	Swyddog Rheolaeth Gorfforaethol	**DSh**
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol	**CV**
Claire Vaughan	Cyfarwyddwraig Trawsnewid Gweithlu Cysylltiol	

YMDDIHEURIADAU

Sara Jones	Cyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrsio
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd Staff

26/15 MATERION GWEITHREDOL

PENDERFYNWYD: nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies ei fod wedi ymddeol fel aelod o

UNITE.

27/15 GWAREDU/PRYDLESI/ADNEWYDDU

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT bapur ac amlinellodd brydles yr adeilad oedd angen cymeradwyaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a chytundebau'r Memorandwm Amodau Meddiannaeth (MOTO) oedd i'w nodi.

PENDERFYNWYD:

(1) bod y Bwrdd yn cymeradwyo prydlesi Gorsaf Ambiwlans Cwmbrân, Tŷ Conwy a Thŷ Epona ar delerau sydd wedi'u cytuno gan NWSSP - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol; ac yn

(2) nodi trefniadau MOTO mewn 4 Gorsaf Dân (Caerffili, Pontyclun, Abertyleri a Thaf Elai).

28/15 ACHOS BUSNES DOSBARTHU GYDA CHYMORTH CYFRIFIADUR (CAD)

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT ddiweddariad ar y fersiwn diweddaraf o'r Achos Busnes amnewid system CAD i'r Bwrdd a cheisiodd ei gefnogaeth a'i gymeradwyaeth ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd sawl opsiwn ar gael i'r Bwrdd eu hystyried lle cafodd Aelodau drosolwg ar bob un gan **PR**.

Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth lawn ac agored lle'r oedden nhw'n ystyried yn fanwl opsiynau'r Achos Busnes a gyflwynwyd iddyn nhw ar gyfer y dyfodol. Codwyd nifer o gwestiynau gan yr Aelodau ac ymatebwyd i'r rhain gan y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r cyfle i graffu ar y fersiwn presennol o Achos Busnes CAD ac unrhyw newidiadau a gynigiwyd; a

(2) Chymeradwyo'r Achos Busnes i'w gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr o sicrhau bod yr opsiwn y cytunwyd arno'n cael ei ail-werthuso gan y Tîm Rheoli Gweithredol.

29/15 EITEMAU CYDSYNIO

Diweddariad ar yr Achosion Cyfreithiol

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol grynodeb byr i'r Bwrdd o achosion y gwyddys amdanyn nhw a allai ddenu sylw'r cyfryngau, cyfreitha a risgiau tebyg eraill.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r achosion y gwyddys amdanyn nhw er gwybodaeth; a

(2) Bod y Cyfarwyddwr Meddygol yn ystyried cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn y dyfodol am achosion cyfreithiol o safbwynt manylion ac amseru.